Wales Strategic Migration Partnership
Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru

Child Migrant Stories

Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales

# "CWYMPO O'R AWYR"

## ADRODDIAD CRYNO

## Lleisiau Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches yng ngofal awdurdodau lleol yng Nghymru

Awdur: Eithne Nightingale

## Cydnabyddiaethau

Hoffai Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) Cymru, a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP), sef cydgomisiynwyr yr adroddiad hwn, ddiolch i'r awdur, Eithne Nightingale, y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran, a'r bobl sy'n eu cefnogi. Gyda chymorth Sabina Hussain, sy'n gyfrifol am Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches (UASC) ar ran y WSMP, ac Anne Hubbard, Pennaeth y WSMP, llwyddwyd i gynnwys lleisiau llawer o bobl ifanc ledled Cymru. Diolch i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Penaethiaid Gwasanaethau Plant ledled Cymru, a phawb a alluogodd y bobl ifanc i gymryd rhan drwy ddarparu cyfieithu ar y pryd, cefnogaeth ystyriol o drawma, amser ac adnoddau.

## Cyllid

Comisiynwyd yr adroddiad gan Hyb ACE Cymru, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r WSMP.

Sefydlwyd **Hyb ACE Cymru** yn 2017 a chafodd ei sefydlu i helpu'r gymdeithas yng Nghymru i ddod yn ymwybodol o drawma ac ACE, a gwneud Cymru yn arweinydd wrth fynd i'r afael ag ACE, eu hatal a'u lliniaru. Rydym yn hyrwyddo rhannu syniadau a dysgu, ac yn herio a newid ffyrdd o weithio, fel y gallwn gyda'n gilydd dorri cylch yr ACEs. Mae Hyb ACE Cymru wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei gynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol a Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Fuddsoddi mewn Iechyd a Llesiant.

Gwefan: www.acehubwales.com

**Mae'r WSMP,** a sefydlwyd yn 2001, wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gartref a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC), ac mae'n gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau statudol, gwirfoddol, preifat a chymunedol i ddarparu arweinyddiaeth strategol, cyngor a chydlynu ar fudo. Cynhelir y WSMP gan CLlLC, i adlewyrchu rôl Cymru gyfan y Bartneriaeth o ran mudo, ac i helpu i feithrin cydweithio agosach â gwasanaethau cyhoeddus a'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gan gysylltu â strwythurau gwleidyddol a blaenoriaethau lleol llywodraeth leol.

Gwefan: https://www.wsmp.wales/home

ISBN: 978-1-83766-828-1

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caniateir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) **www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/** ar yr amod bod hynny'n cael ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni nodir yn wahanol, mae hawlfraint y trefniant teipograffig, y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# MYNEGAI


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 4 |
| 2. Cefndir | 5 |
| 3. Y canfyddiadau allweddol | 6 |
| 4. Casgliadau | 11 |
| Atodiad A: Rhestr termau ymchwil a sefydliadau | 12 |
| Atodiad B: Llythyr recriwtio i'r rhai sy'n gweithio gydag UASC | 15 |
| Atodiad C: Taflen recriwtio i UASC | 16 |
| Atodiad D: Yr ymchwil | 17 |
| Atodiad E: Cyfeiriadau ac adnoddau | 21 |

# THE EXPERIENCES OF UNACCOMPANIED ASYLUM-SEEKING CHILDREN IN WALES

**"RWY'N TEIMLO'N DAWEL. DOES GENNYN NI DDIM GWRTHDARO NA RHYFEL."**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ymchwil hon, a gomisiynwyd gan Hyb ACE Cymru a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP) yn casglu lleisiau pedwar deg dau o Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches (UASC) a chyn UASC sydd wedi gadael gofal ac sy'n byw yng Nghymru neu mewn lleoliadau y tu allan i'r wlad yn Lloegr (gyda chefnogaeth awdurdodau lleol Cymru). Maen nhw wedi cyrraedd trwy amrywiol ddulliau gan gynnwys drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (NTS), yn ddigymell, neu wedi'u cyfeirio drwy'r system lloches ar gyfer oedolion (gweler Atodiad A).

Bydd yr adroddiad a'i ganfyddiadau, y cytunwyd eu bod yn un o'r pethau y gellid eu cyflawni yng nghynllun Hyb ACE Cymru gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25, yn helpu'n uniongyrchol i roi Fframwaith Ymarfer Cymru sy'n Ystyriol o Drawma ar waith.[1] Mae'r Fframwaith, a gyhoeddwyd yn 2022, yn nodi pum egwyddor sylfaenol ar gyfer dull sy'n ystyriol o drawma yng Nghymru, gan gynnwys ymrwymiad i fod yn gynhwysol tuag at brofiadau o adfyd a thrawma yn ein holl gymunedau. Mae'r adroddiad yn cyfrannu at gorff sefydledig o waith a gomisiynwyd gan Hyb ACE Cymru i ategu'r ymrwymiad hwn. Mae'r casgliad o astudiaethau'n ystyried sut mae plant a phobl ifanc sydd wrthi'n symud yn eu mamwlad, yn ystod y daith fudo ac yng Nghymru, yn profi adfyd a thrawma.

Y ffocws yw'r nifer o briodoleddau cadarnhaol y mae plant a phobl ifanc yn eu dangos i oresgyn effaith eu profiadau ar lesiant meddyliol a chorfforol; a nodi'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar y person sydd ei hangen ar gyfer gwell canlyniadau iechyd a gwell canlyniadau cymdeithasol. Mae'r adroddiad hefyd yn sôn yn uniongyrchol am ofyniad Gweithdrefnau Diogelu Cymru i ganolbwyntio ar y plentyn a sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Swyddfa Gartref a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant yng Nghymru er mwyn adolygu arferion a chefnogaeth ar gyfer UASC.

1 Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru. (2022). *Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Dull Cymdeithasol o Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd.* Caerdydd, Cymru

Mae'r ymchwil hon wedi dod yn bwysicach byth ers i'r NTS ddod yn orfodol ym mis Tachwedd 2021, gan ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig osod UASC a gyfeiriwyd trwy'r NTS i'w gofal. Ers hynny, mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant yng Nghymru wedi mynegi pryder a yw buddiannau gorau pobl ifanc, fel y'u nodir ym mhrotocol yr NTS,[2] yn cael eu bodloni. Nod yr adroddiad hwn yw mynd i'r afael â hyn, gan gofio bod gan UASC sy'n cyrraedd gofal awdurdodau lleol Cymru o dan 18 oed yr un hawliau â phob plentyn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) 1989, y mae Cymru wedi'i lofnodi.[3] Plant ydyn nhw yn gyntaf oll, a chydag anogaeth a chefnogaeth briodol, mae ganddyn nhw'r potensial i ddod yn ddinasyddion gweithredol y dyfodol.

## 2. Cefndir

Mae Cymru'n falch o fod yn Genedl Noddfa, sef ymrwymiad sy'n adlewyrchu ei hymroddiad i groesawu a chefnogi pobl sy'n chwilio am ddiogelwch, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae'r weledigaeth hon yn sicrhau bod y rhai sy'n ffoi rhag gwrthdaro ac erledigaeth yn cael eu cyfarfod â charedigrwydd, urddas, a chyfleoedd i ffynnu a chyrraedd eu potensial. I blant a phobl ifanc, mae hyn yn golygu mynediad at ofal cymdeithasol, addysg a chaffael Cymraeg/Saesneg, gofal iechyd, a chefnogaeth gymunedol mewn amgylchedd sy'n gwerthfawrogi cynhwysiant a pharch.

Er nad yw polisi mewnfudo wedi'i ddatganoli i Gymru, Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y mwyafrif o'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc, gan gynnwys UASC. Mae'r plant hyn yn cael eu trin yn bennaf fel Plant mewn Angen ac yn cael eu cefnogi o dan Adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae UASC yn cael eu dosbarthu fel plant 'sy'n derbyn gofal', sy'n rhoi hawl iddyn nhw gael llety, cymorth ariannol, gweithiwr cymdeithasol, addysg a gofal iechyd. Maen nhw hefyd yn gymwys i gael cymorth 'gadael gofal'.

Mae plant sydd wedi profi neu sy'n wynebu risgiau o ran diogelu yn cael eu hamddiffyn o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan.[4] Rhaid ystyried eu buddiannau gorau, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chyfraith mewnfudo'r Deyrnas Unedig.

2 Yr Adran Addysg/Swyddfa Gartref (2025), *Protocol y National Transfer Scheme Protocol for Unaccompanied Asylum-Seeking Children*, Fersiwn 8.0, Llundain, y DU

3 Canolfan Gyfreithiol y Plant, *A Best Practice Guide for Social Workers supporting Children who are claiming asylum*, Abertawe, Cymru.

4 Canolfan Gyfreithiol y Plant, *A Best Practice Guide for Social Workers supporting Children who are claiming asylum*, Abertawe, Cymru.

# 3. Y Canfyddiadau Allweddol

**I gael manylion recriwtio'r cyfranogwyr a methodoleg yr ymchwil, gweler Atodiadau B, C a D.**

## Dod i le diogel

Roedd y bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymchwil yn wynebu heriau y mae pob plentyn mudol yn eu hwynebu - dysgu iaith newydd ac addasu i ddiwylliant gwahanol. Ond roedd gan y rhai y cyfwelwyd â nhw heriau ychwanegol; bod heb deulu i'w cefnogi; profi camdriniaeth neu wahaniaethu; a chael eu dal mewn rhyfeloedd a gweld erchyllterau erchyll. Gan hynny, siaradodd llawer am y diogelwch yr oedden nhw'n ei deimlo yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft, *"Rwy'n teimlo'n dawel. "Does gennyn ni ddim gwrthdaro na rhyfel"* a *"Gallwn ni fynd allan heb ofni y bydd hyn neu'r llall yn digwydd."* Roedd rhai yn gwerthfawrogi rhyddid crefydd neu ryddid mynegiant er enghraifft *"Yn fy ngwlad i, allwch chi ddim arfer eich crefydd heb ofn"* a *"Gallwn ni fynegi ein hunain yn rhydd"*. Yn ein gwlad ni, dim felly mae hi." Roedd un cyfranogwr benyw yn gwerthfawrogi ei rhyddid newydd. "Mae'r rhyddid yn rhyfeddol. Yn fy ngwlad i, y gymdeithas sy'n pennu beth rydych chi'n ei wneud." Roedd rhai yn ddiolchgar am allu adennill hunaniaeth newydd roedden nhw'n gobeithio y byddai'n arwain at fywyd gwell, *"Mae gennych chi hunaniaeth yma, efallai yn ddinesydd yn y dyfodol a gallwch chi deithio. Doedd gen i ddim cerdyn adnabod yn Eritrea ac ar ôl i fy nheulu adael am Ethiopia, doedd gennyn ni ddim hunaniaeth o gwbl."*

## Cyrraedd

Er bod rhai pobl ifanc yn teimlo rhyddhad o fod wedi cyrraedd yn ddiogel, a diolchgarwch i'r rhai a'u hachubodd ar y môr neu a ddangosodd garedigrwydd mewn ffyrdd eraill, roedd eraill yn teimlo'n ddigalon, yn ddryslyd neu'n ofnus pan gawson nhw'r argraff nad oedd yna groeso gan yr awdurdodau. Gallai methu rhoi digon o wybodaeth i bobl ifanc am natur dros dro eu llety cychwynnol neu rybudd ymlaen llaw ynghylch pryd y byddent yn gadael a ble y byddent yn mynd, yn ogystal â chael eu gwahanu oddi wrth ffrindiau yr oeddent wedi creu cysylltiad â nhw ar y daith, achosi straen ychwanegol. Gallai dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o drawma, sy'n cyfleu gwybodaeth hanfodol, yn caniatáu i bobl ifanc ofyn cwestiynau, lleisio pryderon neu roi dewisiadau, gan gynnwys cael eu trosglwyddo gyda ffrindiau agos neu fyw gydag aelodau o'r teulu neu'n agos atyn nhw, liniaru straen o'r fath.

Lle mae amheuaeth ynghylch oedran UASC, dylid rhoi mantais yr amheuaeth i'r bobl ifanc, hyd nes y ceir asesiad gan weithwyr cymdeithasol yr awdurdod lleol. Y rheswm am hyn yw y gall anghydfodau ynghylch oedran effeithio ar iechyd meddwl pobl ifanc, dod yn risg diogelu, [5] a chreu oedi cyn cael gwasanaethau sy'n briodol i'w hoedran. Y dewis arall yw bod y bobl ifanc, os na chân nhw fantais yr amheuaeth, yn cael eu rhoi yn y system oedolion (gwestai). Y dystiolaeth o awdurdodau lleol Lloegr yw bod cyfran uchel o bobl ifanc yn cael eu hasesu wedyn fel plant gan yr awdurdod lleol y maen nhw'n byw ynddo.

## Llety: Gofal maeth

Soniodd llawer o bobl ifanc yn ffafriol am ofal maeth yng Nghymru; am gael eu caru, cael cymorth gyda'u Saesneg, eu hastudiaethau a'u cais am loches; ac am barch at eu

5 Y Comisiynydd Plant (2023), *Unaccompanied Children in Need of Care,* Llundain, y DU.

hanghenion dietegol, diwylliannol a chrefyddol. Weithiau roedd lleoliadau mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd y tu allan i drefi yn creu heriau o ran mynediad at addysg a chwrdd â phobl o'r un cefndir. Er hynny, mae'r profiadau cadarnhaol cyffredinol o ofal maeth yn awgrymu y dylai fod ar gael y tu hwnt i 16 oed i newydd-ddyfodiaid a'r rhai sydd eisoes mewn gofal maeth. Gall symud ymhellach i ffwrdd o'u hysgol neu eu coleg i dai a rennir yn 16 oed amharu ar addysg pobl ifanc. Mewn achosion eraill, gall hynny agor addysg a chyfleoedd eraill, er enghraifft wrth symud o ardal wledig i ddinas amlddiwylliannol.

## Llety: Tai a rennir

Gall byw mewn tai a rennir gydag o leiaf un person ifanc o'r un cefndir diwylliannol neu ieithyddol, o leiaf i ddechrau, leddfu unigrwydd a helpu newydd-ddyfodiaid i ymgartrefu - roedd rhai o'r aelwydydd mwyaf cydlynol yn cynnwys trigolion o'r un cenedligrwydd, lle'r oedd aelodau mwy sefydledig neu hŷn yn cefnogi aelodau iau. Rhywbeth pwysig arall yw a yw'r lleoliad yn caniatáu i'r bobl ifanc gael mynediad at addysg briodol, cyfleusterau crefyddol a diwylliannol, gwneud ffrindiau, a chael ymdeimlad o berthyn. Roedd hyn yn arbennig o heriol y tu allan i'r dinasoedd. Yn gyffredinol, doedd achosion lle roedd newydd-ddyfodiaid yn byw gyda phlant nad oeddent yn ceisio lloches mewn gofal ddim yn llwyddiannus. Er hynny, roedd byw mewn datblygiad tai cymysg gydag amrywiol unedau mewn dinas yn Lloegr yn hwb i un person ifanc integreiddio ar ôl cael caniatâd i aros.

## Llety: Symud ymlaen

Roedd nifer o bobl ifanc, oedd yn derbyn gofal gan un awdurdod lleol ond yn byw mewn un arall, yn wynebu her wrth geisio sicrhau mynediad at dai cymdeithasol lle'r oedden nhw wedi ymgartrefu, yn mynd i'r coleg, yn meddu ar ffrindiau ac yn gallu cael mynediad at gyfleusterau crefyddol a diwylliannol. Y rheswm am hyn oedd nad oedd yr awdurdod lleol lle roedden nhw'n byw, o gofio eu bod yn dal yng ngofal awdurdod arall, o'r farn eu bod yn bodloni eu meini prawf nhw ynglŷn â thai cymdeithasol. Roedd y rhwystr hwn rhag sicrhau cartref sefydlog yn effeithio'n ddifrifol ar lesiant nifer o bobl ifanc, a'u gallu i symud ymlaen mewn rhannau eraill o'u bywydau. O gofio bod ychydig dros 50% o'r garfan ymchwil, h.y. 22 allan o'r 42 o bobl adeg y cyfweliad, wedi'u lleoli y tu allan i'r sir neu'r wlad, mae'n amlwg bod angen brys am gydweithio agosach rhwng yr awdurdodau lleol i fynd i'r afael â hyn (gweler Atodiad D i gymharu'r ffigurau hyn ag atgyfeiriadau UASC drwy'r NTS yn 2024).

## Gofal cymdeithasol

Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi'n fawr y gofal a gawsant gan weithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol. Roeddent yn gwerthfawrogi cael eu gwrando, cael sylw i'w pryderon neu esboniad lle'r oedd hyn yn amhosibl. Roedd sicrhau bod UASC yn deall eu hawliau a'u bod yn cael y gefnogaeth a'r gynrychiolaeth gyfreithiol orau posibl, a hynny'n brydlon, ar gyfer eu cais am loches, sef cais y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdano yn gyfreithiol, yn hanfodol. Gallai ymarferwyr gofal cymdeithasol elwa o gael canllawiau ychwanegol yn y maes hwn. Eto i gyd, roedd yna lefelau gwasanaeth amrywiol rhwng gwasanaethau plant, a amlygwyd weithiau gan bobl ifanc oedd yn derbyn gofal gan wahanol awdurdodau lleol ac yn byw gyda'i gilydd. Yn ddiddorol ddigon, doedd yr unigolion oedd yn byw y tu allan i'r sir neu'r wlad ddim o reidrwydd yn cael llai o gefnogaeth. Gallai arfer fwy safonedig ar draws yr awdurdodau lleol liniaru teimladau o annhegwch.

## Eiriolaeth a chefnogaeth arall

Elwodd rhai pobl ifanc o gael eiriolwyr a ddarparwyd gan sefydliadau fel TGP Cymru[6] a Barnardo's, a gamodd i'r adwy i roi cymorth ychwanegol neu i fynd i'r afael ag oedi e.e. wrth gael mynediad at gyfreithiwr. Nid oedd yn glir faint o UASC a elwodd o'r gwasanaeth hwn, y mae gan bob UASC hawl iddo o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond sydd â photensial i ateb anghenion ychwanegol penodol UASC. Mae'r gefnogaeth anffurfiol a gafodd un person ifanc, a ffodd o westy i oedolion ar ôl anghydfod ynghylch ei oedran, yn awgrymu bod yna botensial heb ei gyffwrdd o fewn cymunedau mudol y gellid ei ddefnyddio, am dâl neu mewn swyddogaeth wirfoddol, i wella llesiant UASC.

Gall y newid yn 18 oed , pan fydd gwasanaethau gofal cymdeithasol a llety yn cael eu lleihau neu eu newid, fod yn her i UASC sy'n dal i ymgyfarwyddo â gwahanol wasanaethau cymorth, yn aml heb fawr o wybodaeth o Saesneg. Mae angen rhagor o strategaethau i wella eu hyder wrth gael mynediad at wasanaethau'n annibynnol.

## Iechyd

Cafodd rhai pobl ifanc ofal rhagorol i gyflyrau hirdymor, ond roedd eraill yn teimlo nad oedd eu symptomau'n cael eu trin o ddifrif a bod cyfnodau yn yr ysbyty yn arbennig o anodd. Mae problemau cyfathrebu yn dangos y byddai UASC yn elwa o gael mwy o wybodaeth am sut i ddefnyddio gwahanol wasanaethau'r GIG yn effeithiol, yn enwedig gan y tîm Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n ymweld ag UASC pan fyddant yn cyrraedd am y tro cyntaf. Mae llawer o UASC heb yr hyder angenrheidiol i gael mynediad at ofal meddygol yn annibynnol ar ôl 18 oed. Byddai gwell mynediad at gyfieithwyr o gymorth i'r bobl ifanc ac ar gyfer hyfforddi staff meddygol ar anghenion UASC.

## Iechyd meddwl

Roedd llawer o'r bobl ifanc wedi profi ACEs yn eu gwlad wreiddiol, ar y daith, ac yn y Deyrnas Unedig. Roedden nhw'n colli eu teuluoedd ac yn poeni am eu diogelwch. Roedd rhai aelodau agos o'r teulu eisoes wedi cael eu lladd, ac roedd eraill ar goll neu'n anodd cysylltu â nhw. Roedd pobl ifanc yn bryderus am eu dyfodol eu hunain ac yn ofni cael eu hanfon yn ôl i'w gwlad wreiddiol. Yn aml, byddai hyn yn amlygu ei hun trwy ddiffyg cwsg, iselder, diffyg ffocws neu dynnu'n ôl.

Roedd rhai pobl ifanc yn cefnogi eu llesiant eu hunain drwy siarad â ffrindiau dibynadwy neu drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau eraill. Roedd yn amlwg bod eu hiechyd meddwl wedi gwella gyda newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau fel ailgysylltu â theulu, gwneud ffrindiau newydd, magu hyder wrth ddefnyddio Saesneg ac, yn hollbwysig, sicrhau caniatâd i aros. Doedd rhai pobl ifanc ddim yn ymwybodol o wasanaethau iechyd meddwl neu'n betrusgar i'w defnyddio[7] ac roedd rhai yn eu gweld yn anfoddhaol. Siaradai eraill yn gadarnhaol am wasanaethau cwnsela gan sefydliadau'r trydydd sector. Byddai cydweithio rhwng ymarferwyr iechyd meddwl yn y sectorau statudol a gwirfoddol i ddatblygu gwasanaethau sy'n briodol yn ddiwylliannol, ar sail model ariannu realistig, yn datblygu gwasanaethau iechyd meddwl ochr yn ochr â chyflwyno hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma i bawb sy'n gweithio gydag UASC.

6 TGP Cymru yw enw gweithredol Tros Gynnal Plant

7 Hyb ACE Cymru. Ynglŷn ag ACE a dull sy'n ystyriol o drawma, Cymru.

## Addysg

Dangosodd pobl ifanc, gyda lefelau amrywiol o addysg flaenorol, frwdfrydedd dros addysg, ac ymrwymiad iddi. Ac eto, mewn ardaloedd gwledig, roedd yna rwystrau yn eu hatal rhag cael lleoedd amser llawn yn yr ysgol, sef rhywbeth y mae gan bob plentyn o oedran ysgol hawl iddo o'r diwrnod cyntaf, yn ogystal â chefnogaeth mewn Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL). Weithiau roedd y bobl ifanc o'r farn bod natur EAL yn anfoddhaol, gan awgrymu bod angen mwy o ddarpariaeth EAL a mwy o ddatblygu staff, yn enwedig mewn ysgolion sydd â phrofiad cyfyngedig o fyfyrwyr EAL a mwy o ddarpariaeth sy'n galluogi mynediad i'r cwricwlwm prif ffrwd.[8]

Roedd llawer o UASC yn gwerthfawrogi cyrsiau coleg sy'n darparu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), gan gydnabod bod hyn yn allweddol i fyw a ffynnu yn y Deyrnas Unedig. Er hynny, roedd yna oedi y tu allan i ddinasoedd wrth gael mynediad at gyrsiau coleg llawn amser, yn enwedig ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd - efallai na fydd pobl ifanc yn teimlo'n gyffyrddus yn dysgu ochr yn ochr â dysgwyr hŷn mewn dosbarthiadau ESOL i oedolion yn y gymuned. Roedd rhwystrau eraill yn cynnwys pellter i ddosbarthiadau a chymorth ariannol amrywiol gan yr awdurdodau lleol i bobl mewn darpariaeth addysg bellach.

Un rhwystredigaeth allweddol oedd gorfod astudio ESOL am flynyddoedd cyn symud ymlaen i astudiaethau eraill.  Gallai darpariaeth hyblyg sy'n cynnig cefnogaeth iaith ochr yn ochr â chymwysterau galwedigaethol ac academaidd fynd i'r afael â hyn. Gallai darpariaeth ar-lein/hybrid EAL ac ESOL helpu myfyrwyr sy'n methu cael mynediad at hyfforddiant wyneb yn wyneb, neu yn ogystal â hynny.

## Y broses ceisio lloches

Siaradodd rhai pobl ifanc am eu rhyddhad, hyd yn oed eu llawenydd, ar ôl cael caniatâd i aros. Roedd rhai oedd wedi cyrraedd yn gymharol ddiweddar, yn enwedig o Affganistan neu Swdan, wedi cael canlyniad eu cais am loches o fewn misoedd. Mynegodd eraill eu rhwystredigaeth ynghylch oedi wrth ddod o hyd i gyfreithiwr, amserau aros o flynyddoedd a misoedd, methu deall y rhesymau dros oedi neu wahaniaethau mewn canlyniadau. Gallai mwy o eglurder gan y Swyddfa Gartref a chyfathrebu effeithiol â phobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw ar weithdrefnau, amserlenni a'r broses o wneud penderfyniadhelpu i fynd i'r afael â hyn.

Er bod rhai pobl yn teimlo'n hyderus am y cyfweliad lloches, roedd eraill yn teimlo dan fygythiad gan staff y Swyddfa Gartref, gan gynnwys cyfieithwyr oedd yn siarad tafodiaith wahanol neu yr oedd eu gwaith cyfieithu'n anghywir. Mae hyn yn awgrymu bod angen adolygu rôl y cyfieithydd ac y dylai bawb sy'n ymwneud â'r broses loches arddel ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o drawma.

Mae llwybrau diogel i'r Deyrnas Unedig, ac ehangu cymhwysedd i aduno teuluoedd, ill dau yn hanfodol er mwyn atal pobl ifanc rhag mentro'u bywydau ar deithiau peryglus.

8 Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru a Phrifysgol De Cymru, *Adolygiad o bolisi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru.*

### Gwaith

Roedd llawer o bobl ifanc, yn enwedig unigolion oedd yn aros flynyddoedd i'w cais am loches gael ei brosesu, yn rhwystredig am nad oedden nhw'n cael gweithio. Byddai caniatâd i weithio wrth aros am ganlyniad cais am loches, fel sy'n digwydd yn yr Almaen ar ôl 6 mis o geisio lloches, yn gwella llesiant, annibyniaeth ariannol ac integreiddiad pobl ifanc.  Yn y cyfamser, mae rheolau'r hawl i weithio hefyd yn ymddangos yn aneglur i lawer ac mae angen eglurhad hefyd ynghylch a gaiff pobl ifanc, ar ôl 12 mis yn y Deyrnas Unedig, wneud cais am ganiatâd i weithio er nad oes ganddyn nhw ganiatâd i aros.

Mae diffyg hyfedredd mewn Saesneg yn cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth, ac felly hefyd diffyg hyder, diffyg rhwydweithiau lleol a diffyg gwybodaeth am y farchnad swyddi. Gallai cefnogaeth yn y maes hwn, gan gynnwys cyswllt â phobl sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau, yn enwedig o gymunedau mudol, ehangu gorwelion pobl ifanc ac agor cyfleoedd.

### Integreiddio

Roedd enghreifftiau cadarnhaol o UASC yn cymysgu â phobl leol trwy weithgareddau ieuenctid a chwaraeon ond roedd yna hefyd ddiffyg hyder a chyfleoedd i wneud hyn. Dangosodd llawer frwdfrydedd dros gwrdd â phobl leol a dysgu am ddiwylliant lleol, hyd yn oed y Gymraeg, er bod Saesneg yn flaenoriaeth. Roedden nhw eisiau gwneud eu bywydau yma, astudio, gweithio, sefydlu eu teuluoedd eu hunain a chyfrannu at y gymdeithas.

Mae hyn yn tanlinellu'r angen i sefydliadau statudol a gwirfoddol weithio gydag UASC i greu cyfleoedd sy'n hybu integreiddio trwy chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, gweithgareddau creadigol ac eraill, yn ogystal â mannau diogel i UASC rannu eu diwylliant a'u profiad bywyd gydag eraill. Gallai dileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwirfoddoli helpu integreiddio. Dylid mynd i'r afael hefyd ag anghenion lleiafrifoedd, er enghraifft unigolion o wledydd gwreiddiol sydd â llai o gynrychiolaeth, ac UASC benyw ac LGBTQ.

### Rhannu arbenigedd

Mae'n amlwg bod y cynllun NTS gorfodol wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol ond hefyd wedi dod â heriau newydd. Gall plant gyrraedd dinas neu gymdogaeth amlddiwylliannol sydd â siopau, bwytai a mannau crefyddol lle maen nhw'n teimlo'n gyffyrddus. Neu efallai y byddan nhw'n cyrraedd cymdogaeth lle nad oes neb yn edrych fel nhw nac yn siarad yr un iaith; lle gall mynediad at gyfleusterau addysgol, diwylliannol neu grefyddol priodol fod yn broblem. Mae'n ddealladwy y gallai awdurdod lleol asesu mai'r peth gorau er lles y plentyn yw ei osod mewn ardal drefol lle mae seilwaith clir sy'n ateb ei anghenion. At hynny, nid yw'n syndod bod pobl ifanc yn gofyn am symud i ddinas neu ei bod yn well ganddynt aros yno, hyd yn oed os yw hyn, os ydyn nhw wedi'u lleoli y tu allan i'r sir neu'r wlad, yn creu problemau o ran  mynediad at dai cymdeithasol. Mae cymunedau mudol, wedi'u gwasgaru ledled y Deyrnas Unedig, yn aml wedi symud i ardaloedd trefol i astudio a gweithio ac ar gyfer cyfleusterau sy'n briodol yn ddiwylliannol ac i gefnogi ei gilydd.

Er hynny, o gofio natur orfodol yr NTS, mae'n bwysig nodi ffactorau, y mae rhai ohonynt wedi'u crybwyll yn yr adroddiad hwn, a all gefnogi UASC sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig neu led-wledig a'r tu allan i drefi, a thrafod sut y gall lleoliadau y tu allan i

ddinasoedd weithio i bobl ifanc yn y tymor hirach. Mae angen hefyd i'r WSMP barhau i hwyluso hyfforddiant, cyngor a rhannu arbenigedd rhwng awdurdodau lleol sy'n gofalu am UASC mewn dinasoedd, sydd yn aml â mwy o brofiad o gefnogi UASC, ac awdurdodau lleol sy'n gofalu am UASC mewn ardaloedd gwledig neu y tu allan i'r trefi, y mae hyn yn gymharol newydd iddynt.

## 4. Casgliadau

Mae Cymru yn Genedl Noddfa gydag ymrwymiad i groesawu mewnfudwyr, a mesurau polisi i sicrhau bod yr uchelgais hon yn cael ei gwireddu. Mae ganddi fframwaith deddfwriaeth sy'n hybu lles a hawliau pob plentyn. Gan hynny, mae'r genedl mewn sefyllfa gref i dynnu ar yr arferion da a grybwyllir yn yr adroddiad hwn ond hefyd i ymateb i'r canfyddiadau sy'n deillio o ddirnadaeth a phrofiadau byw y bobl ifanc.

Gobeithio y gall hyn fod yn ddechrau ar ddeialog barhaus gyda'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymchwil, fel y gall y rhai sy'n gyfrifol am eu gofal wrando ar eu barn a'u syniadau, gan arwain at wella bywydau UASC nawr ac yn y dyfodol.

Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y Swyddfa Gartref a phartneriaid eraill, a fydd yn cydweithio yn y misoedd nesaf i ystyried sut y gallant fwrw ymlaen â'r gwersi sydd i'w dysgu o'r ymchwil hon.

# ATODIAD A: RHESTR TERMAU YMCHWIL A SEFYDLIADAU

## Llwybrau y gallai UASC eu dilyn i gyrraedd Cymru

**Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (NTS)** – bwriad yr NTS yw sicrhau na fydd awdurdod lleol unigol yn wynebu cyfrifoldeb anghymesur wrth letya a gofalu am blant digwmni, dim ond am mai dyna fan cyrraedd plant digwmni (e.e. Gwasanaethau Plant Caint).

**Cyraeddiadau 'digymell'**– mae llawer o UASC yn cyrraedd y Deyrnas Unedig trwy eu dulliau eu hunain ac yn cael eu cyfarfod yn eu porthladd mynediad, yn yr Uned Derbyn Ceiswyr Lloches yn Croydon, neu fel arall mae'r heddlu/gwasanaethau cymdeithasol yn dod ar eu traws. Fel arfer, mae unigolion sy'n cyrraedd yn ddigymell yn cael eu cymryd i ofal yr awdurdod lleol y maent yn cyflwyno eu hunain iddo gyntaf.

**Plant ffoaduriaid** – gall plant ffoaduriaid (nad oes rhaid iddynt fynd trwy'r broses lloches) hefyd gyrraedd y Deyrnas Unedig o dan Gynllun Adsefydlu'r Deyrnas Unedig.

**Llwybr lloches i oedolion** – gall pobl ifanc y mae'r Swyddfa Gartref neu awdurdodau eraill yn codi anghydfod ynglŷn â'u hoedran gael eu gosod mewn llety gwasgaru ceiswyr lloches i oedolion yng Nghymru. Ar ôl cyrraedd Cymru, efallai y bydd y bobl ifanc hyn yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Plant yn eu hardal ac y bydd angen asesiad oedran arnynt.

**Cynllun Dubs** – cafodd y cynllun hwn, a elwid gynt yn Adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016, ei gyflwyno yn sgil gwelliant a gynigiwyd gan yr Arglwydd Alf Dubs. Ymrwymodd y cynllun lywodraeth y Deyrnas Unedig i adleoli nifer penodol o UASC o Ewrop i'r Deyrnas Unedig, mewn ymateb i'r argyfwng dyngarol sy'n effeithio ar blant sydd wedi'u gadael mewn gwersylloedd fel Calais ac ar draws de Ewrop. Daeth y cynllun i ben yn 2020.

## Sefydliadau

### Cyfiawnder Lloches

Cyfiawnder Lloches yw'r unig sefydliad yng Nghymru sy'n darparu cyngor a chynrychiolaeth arbenigol am ddim ar fewnfudo, hyd at ac yn cynnwys lefel y llys, i geiswyr lloches, ffoaduriaid, a mudwyr sy'n agored i niwed.

### Barnardo's

Mae Barnardo's yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol, arbenigol i blant sydd wedi cael eu masnachu. Maen nhw'n rhedeg Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Masnachu Plant Annibynnol (ICTGS)arbenigol yng Nghymru sydd:

- yn meithrin perthnasoedd dibynadwy â phlant sydd wedi'u masnachu i'w helpu i adeiladu dyfodol cadarnhaol.
- yn helpu plant i lywio drwy'r systemau cyfiawnder troseddol, mewnfudo a gofal cymdeithasol.
- yn rhoi cefnogaeth ymarferol, fel cymorth gyda thai, anghenion meddygol ac addysg.
- yn rhoi cefnogaeth emosiynol a seicolegol.

- yn hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant er mwyn iddyn nhw allu adnabod arwyddion masnachu plant a gwybod sut i gefnogi plant sydd wedi'u masnachu.

## Y Groes Goch Brydeinig

Y Groes Goch Brydeinig yw darparwr gwasanaethau annibynnol mwyaf y Deyrnas Unedig ar gyfer ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches. Maen nhw'n cynnig cymorth brys, cefnogaeth un-i-un a gwaith achosion, a gwasanaethau arbennig i blant a theuluoedd.

Mae'r Groes Goch Brydeinig yn gweithredu'r Gwasanaeth Olrhain Teuluoedd Rhyngwladol, sy'n helpu'r rhai sydd wedi colli cysylltiad â'u teulu oherwydd gwrthdaro arfog, trychinebau, mudo neu argyfyngau eraill. Mae'r gwasanaeth ar gael ledled y Deyrnas Unedig a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan y Groes Goch Brydeinig.

## Prosiect y Breuddwydwyr

Mae'r Breuddwydwyr yn brosiect a gynhyrchir ar y cyd sy'n anelu at wella iechyd meddwl ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc (16-25 oed) sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae'r prosiect yn cael ei ddarparu drwy bartneriaeth rhwng Oasis, TGP Cymru a Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro(CAVHIS) ynghyd â'r bobl ifanc sy'n ceisio lloches neu sydd wedi sicrhau statws ffoadur yn y Deyrnas Unedig.

## Canolfan (Noddfa) GAP – Casnewydd

Mae'r Noddfa'n brosiect sy'n darparu croeso a chymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghasnewydd. Yn ogystal â chyfeillio a chefnogaeth emosiynol, mae'r Noddfa'n cynnig cymorth ymarferol i gymunedau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghasnewydd trwy sawl menter eiriolaeth. Mae'r Noddfa hefyd yn rhedeg amryw o weithgareddau drwy gydol yr wythnos, gan gynnwys clwb ieuenctid ar ôl ysgol, sy'n rhoi lle diogel i blant digwmni gymdeithasu â phobl ifanc leol a chael mynediad at gymorth priodol.

## I mewn i Waith

Mae Gwasanaeth Cynghori I Mewn i Waith yn darparu cymorth cyflogaeth, hyfforddiant a chymorth digidol i unigolion sydd wrthi'n chwilio am waith neu'n awyddus i uwchsgilio. Mae ganddyn nhw raglen fentora hefyd ai bobl ifanc 16-24 oed.

## Cymorth i Fudwyr

Mae Cymorth i Fudwyr yn rhedeg llinell gymorth lloches am ddim 24/7 sydd ar gael i bob ceisiwr lloches yn y Deyrnas Unedig. Maen nhw'n gallu helpu gyda cheisiadau am gymorth lloches, rhoi gwybod am broblemau cynnal a chadw gyda llety lloches, ceisiadau am gymorth, a chyngor ar unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â lloches. Gall UASC sy'n gadael gofal gysylltu â Migrant Help os yw eu cymorth gan yr awdurdod lleol yn cael ei atal.

## Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)

Mae'r NYAS yn sefydliad sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n darparu eiriolaeth i rai o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Ochr yn ochr â chymorth eiriolaeth, maen nhw'n darparu rhaglenni cyfranogiad ieuenctid i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, sy'n cynnwys iechyd meddwl a llesiant, ymagwedd at blismona sydd wedi'i seilio ar hawliau plant, cymorth i fenywod ifanc sy'n feichiog/sydd â phlant, UASC a phobl ifanc digartref.

## Oasis

Dechreuodd Oasis yn 2008 ac mae'n gweithredu fel hyb hanfodol i geiswyr lloches yng nghanol Caerdydd. Mae'n gymuned fywiog o lawer o genhedloedd, diwylliannau, profiadau, sgiliau, heriau, llwyddiannau a bwyd. Mae Oasis yn darparu ystod eang o wasanaethau holistig, am ddim i geiswyr lloches, a'r rheiny'n gweithio ar sail galw heibio.

## TGP Cymru - Rhaglen Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Ifanc

Mae TGP Cymru yn darparu gwaith eiriolaeth, cyfranogiad ac ymgynghori gydag UASC ledled Cymru ac yn cefnogi ceiswyr lloches ifanc a ffoaduriaid hyd at 25 oed.

## Cyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC)

Y WRC yw'r prif sefydliad yng Nghymru sy'n hybu cydraddoldeb i geiswyr lloches a ffoaduriaid, ac yn meithrin cysylltiadau da â nhw. Maen nhw'n darparu gwasanaethau cyngor a chymorth arbenigol i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru i sicrhau y gallan nhw gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

# ATODIAD B: LLYTHYR RECRIWTIO I'R RHAI SY'N GWEITHIO GYDAG UASC

Annwyl

Rwyf wedi cael fy nghomisiynu gan Hyb ACE Cymru a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP) i gasglu profiadau USAC (Ceiswyr Lloches Digwmni) a chyn Ymadawyr Gofal sy'n byw yng Nghymru neu sydd mewn lleoliadau y tu allan i'r wlad yn Lloegr (gyda chymorth awdurdodau lleol Cymru).

Cynhelir yr ymchwil hon rhwng Ionawr a Mawrth 2025 drwy gyfweliadau grŵp neu unigol, yn bersonol neu ar-lein, yn Saesneg neu, os oes angen, gyda chymorth cyfieithydd. Y nod yw casglu profiadau pobl ifanc o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ac o fynd i ofal awdurdodau lleol Cymru, ar addysg, iechyd gan gynnwys iechyd meddwl, materion mewnfudo ac integreiddio. Byddaf yn annog y bobl ifanc i rannu profiadau cadarnhaol a negyddol yn ogystal â nodi, fel yn fy llyfr diweddar *Child Migrant Voices in Modern Britain; Oral Histories 1930s - Present Day*, eu syniadau nhw ar sut i wella bywydau ceiswyr lloches ifanc. Bydd yr ymchwil yn cael ei dwyn ynghyd mewn adroddiad i lywio polisïau ac arferion.

A chithau'n rhywun sy'n wybodus yn y maes hwn, gobeithio y byddwch chi'n gallu hwyluso cyfranogiad pobl ifanc. Byddaf yn dilyn yr holl egwyddorion moesegol ynghylch cydsyniad, anonymeiddio, y gallu i dynnu'n ôl unrhyw bryd neu newid eu geiriau, neu ychwanegu at eu geiriau yn nes ymlaen. Gan ddefnyddio fy mhrofiad yn y maes hwn, byddaf yn anelu at greu amgylchedd cyfranogol a llawn ymddiriedaeth, gan nodi cyfleoedd, yn ôl yr angen ac os dymunir, i'r bobl ifanc leisio'u barn eu hunain yn y parth cyhoeddus. Bydd y cyfranogwyr hefyd yn cael tocyn gwerth £25 i ddiolch am eu cyfraniad.

Rydym yn awyddus i recriwtio pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys menywod ifanc.

Mae'r amserlen yn fyr. Os ydych chi'n adnabod pobl ifanc a allai gyfrannu at yr ymchwil bwysig hon, cysylltwch â Sabina Hussain ar sabina.hussain@wlga.gov.uk cyn gynted â phosibl i gydlynu manylion ac yn y lle cyntaf. Rwyf wedi atodi taflen i'w dosbarthu i'r bobl ifanc yn ôl yr angen.

I weld rhagor o'm gwaith ar ymchwil gyda mudwyr ifanc gan gynnwys ffilmiau a chyhoeddiadau gweler childmigrantstories.com.

Yn gywir

Eithne Nightingale
childmigrantstories.com
eithne.nightingale@icloud.com

Child Migrant Stories

# APPENDIX C: TAFLEN RECRIWTIO I UASC

Child Migrant Stories

**Experiences of Young Unaccompanied Asylum Seekers in Wales**

Have you arrived in Britain aged under 18 to seek asylum and been accepted into Welsh local authority care? Would you like to share your experiences, positive and negative, of welcome and support?

If so Dr Eithne Nightingale, a researcher, writer and filmmaker, would like to talk to you. This would be in a group or on your own, in person or online. You can speak in English or, if possible, with an interpreter. You can choose what you want to share and whether to use your own name or be anonymous. Eithne will send you a copy of your interview so you can change, or add, words at a later date.

You will receive the final research report with your suggestions on how to improve the lives of young asylum seekers. All participants will receive a £25 voucher to thank you for your contribution.

What you share will not affect your asylum claim, immigration status or the care and support you receive now or in the future.

If you are interested talk to your social, youth or community worker or contact Sabina Hussein on sabina.hussain@wlga.gov.uk.

You can see more of Eithne's research, writing and films about young people's experience of migration on childmigrantstories.com

**This research is funded by the Adverse Childhood Experiences (ACE) Hub Wales and the Wales Strategic Migration Partnership (WSMP).**

# ATODIAD D: YR YMCHWIL

Comisiynodd Hyb ACE Cymru a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP) Dr Eithne Nightingale, awdur *Child Migrant Voices in Modern Britain; Oral Histories 1930s - Present Day*, a gyhoeddwyd gan Bloomsbury 2024, i gasglu profiadau UASC (Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches) a chyn-ymadawyr gofal sy'n byw yng Nghymru neu mewn lleoliadau y tu allan i'r wlad yn Lloegr (gyda chymorth awdurdodau lleol Cymru).

Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2025 drwy gyfweliadau grŵp ac unigol, yn bersonol ac ar-lein, gyda chymorth cyfieithwyr. Y nod oedd casglu profiadau pobl ifanc o fynd i ofal awdurdodau lleol Cymru, yn benodol, ond nid yn gyfan gwbl, drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (NTS).

## i) Recriwtio

Anfonwyd llythyr gan yr ymchwilydd Dr Eithne Nightingale, a ysgrifennwyd ar y cyd â Hyb ACE Cymru a'r WSMP, at Benaethiaid Gwasanaethau Plant ac ymarferwyr UASC ledled Cymru (gweler Atodiad B), ar ôl cytuno bod angen clywed lleisiau UASC. Ynghyd â hyn roedd taflen i'w dosbarthu i'r bobl ifanc, a'i thrafod gyda nhw (gweler Atodiad C).

## ii) Methodoleg

Cymerodd 42 o UASC ac UASC sydd wedi gadael gofal ac sy'n byw yng Nghymru neu mewn lleoliadau y tu allan i'r wlad yn Lloegr (gyda chymorth awdurdodau lleol Cymru) ran yn yr ymchwil. Dyna 4.89% o gyfanswm (859) yr UASC (389) ac UASC sydd wedi gadael gofal (470), yng ngofal awdurdodau lleol Cymru ar 31 Rhagfyr, 2024.[9]

Cymerwyd y data canlynol o ffurflenni a lenwyd gan y bobl ifanc, weithiau gyda chymorth y staff a'r cyfieithydd oedd yn bresennol. .

### Gwlad neu darddiad

| Gorllewin Affrica | Fietnam | Syria | Eritrea | De Swdan | Somalia | Affganistan | Iran | Swdan | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 7 | 10 | 10 | 42 |

Mae hyn yn adlewyrchu'r cenedligrwydd mwyaf cyffredin ymysg pobl ifanc a gyfeiriwyd at Gymru drwy'r NTS yn 2024, gyda Swdan yn uchaf, ac yna Iran ac Affganistan. [10]

9 Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (2025), *Analysis of NTS Referrals – 1st January 2024 – 31st December 2024. Cymru* .

10 Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (2025), *Analysis of NTS Referrals – 1st January 2024 – 31st December 2024. Cymru.*

### Oedran (adeg y cyfweliad)

| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | Yn eisiau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 0 | 0 | 6 | 14 | 10 | 4 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 4 * | 42 |

* Wnaeth pedwar o'r bobl ifanc ddim ateb y cwestiwn ar oedran.[11]

### Rhywedd

| Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|
| 39 | 3 | 42 |

Benywod oedd 7.12% o'r rhai y cyfwelwyd â nhw. O'r 207 o bobl ifanc a atgyfeiriwyd i Gymru drwy'r NTS yn 2024, dim ond pump oedd yn fenywod (2.4%).[12]

### Dull cyrraedd Cymru

| Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|
| 34 | 8 * | 42 |

* Daeth un person ar gynllun Dubs (Adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016), roedd saith yn ddyfodiaid digymell (gweler Atodiad A).

### Lleoliadau o fewn ac allan o'r sir yng Nghymru a'r tu allan i'r wlad yn Lloegr.

O'r 42 o gyfranogwr, lleolwyd 14 y tu allan i'r sir, h.y. mewn tair dinas yn Ne-orllewin a De-ddwyrain Cymru, a lleolwyd wyth y tu allan i'r wlad yn Lloegr, saith mewn dinas yng ngogledd Lloegr ac un yn Llundain. O'r unigolion y cyfwelwyd â nhw, dim ond pump oedd yn byw y tu allan i ddinasoedd, er bod sawl un wedi symud i leoliadau mewn dinas ar ôl byw mewn trefi a phentrefi gwledig a'r tu allan i drefi ledled Cymru. Dangosodd dadansoddiad o atgyfeiriadau UASC yn 2024 fod 43% wedi'u lleoli o fewn y sir, 25% wedi'u lleoli y tu allan i'r sir yng Nghymru a 32% wedi'u lleoli y tu allan i'r wlad yn Lloegr. [13]

## iii) Cyfweliadau grŵp ac unigol wyneb yn wyneb

Cynhaliwyd cyfweliadau grŵp gyda rhwng dau a saith o bobl ifanc a thri chyfweliad unigol mewn mannau oedd eisoes yn hysbys i'r bobl ifanc mewn dinasoedd yn Ne-orllewin a De-ddwyrain Cymru ac yng ngogledd Lloegr. Fe'u cynhaliwyd yn ystod hanner tymor mis Chwefror ac yn ystod gwyliau'r Pasg pan nad oedd y bobl ifanc yn y coleg. Cafodd y bobl ifanc eu recriwtio'n weithredol a'u hannog i fod yn bresennol gan weithwyr cymdeithasol, cynghorwyr personol, gofalwyr maeth ac eraill a oedd yn gweithio'n agos gydag UASC ac a fu hefyd yn trefnu ac yn cynnig cartref i'r cyfweliadau.

Pwysleisiodd y cyfwelydd mai pwrpas yr ymchwil oedd i'r bobl ifanc fod mor agored â phosibl. Cawsant sicrwydd y byddai'r adroddiad yn ddienw (cawsant eu hannog i ddewis

11 Ibid.
12 Ibid.
13 Ibid.

eu ffugenw eu hunain), na fyddai dim byd a rannwyd ganddynt yn effeithio ar eu cais am loches, eu statws mewnfudo na'r gofal a'r cymorth roedden nhw'n eu cael bryd hynny nac yn y dyfodol, ac y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei anfon atyn nhw i gael sylwadau arno cyn iddo gael ei gyhoeddi. Llofnododd y bobl ifanc ffurflenni cydsynio, neu cafodd hyn ei gofnodi cyn y cyfweliad, gan gadarnhau eu bod wedi deall yr ymchwil, eu bod wedi cael gofyn cwestiynau, y gallen nhw wrthod ateb unrhyw gwestiwn penodol a thynnu'n ôl unrhyw bryd (gweler Atodiad C).

Rhoddwyd dewis i'r bobl ifanc a allai'r oedolion proffesiynol, gan gynnwys y rhai oedd yn gofalu amdanyn nhw neu staff o'r WSMP a fu'n bresennol mewn rai sesiynau grŵp yng Nghymru, fod yn bresennol. Cytunodd y bobl ifanc i hyn yn bennaf, ond weithiau byddai oedolion yn dewis peidio â dod i'r cyfweliad cyfan neu ran ohono os oedden nhw'n uniongyrchol gyfrifol am eu gofal. Ar adegau, gwnaeth y gweithwyr cymdeithasol a'r cynorthwywyr personol gyfraniadau gwerthfawr at y trafod, gan roi cefndir i'r hyn ddywedodd y bobl ifanc, neu ei gadarnhau. Mae rhywfaint o hyn, gyda'u cytundeb, wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yn ddienw.

Roedd sawl un, ond nid pob un, o'r cyfieithwyr eisoes yn adnabyddus i'r bobl ifanc. Yn wir, roedd rhai wedi bod yn bresennol pan gyrhaeddodd y person ifanc Gymru gyntaf neu wedi cyfieithu ar gyfer eu sesiynau cwnsela, er enghraifft. Roedd rhai cyfieithwyr wedi dod eu hunain fel pobl ifanc, un wedi mynd i ofal maeth fel UASC yn Birmingham ddegawdau ynghynt. Roedd gan y mwyafrif o aelodau'r grŵp yr un cefndir ieithyddol ac eithrio rhai pobl ifanc â Saesneg da, oedd yn teimlo nad oedd arnyn nhw angen cyfieithydd.

Parhaodd y cyfweliadau grŵp rhwng awr a hanner a dwy awr a hanner, gyda saib yng nghanol y rhai hiraf. Rhoddwyd y dewis i'r unigolion y cyfwelwyd â nhw o ysgrifennu ymatebion i'r cwestiynau yn eu hiaith eu hunain neu yn Saesneg ar nodiadau Post-it ond roedd yn well ganddyn nhw drafod pethau ar lafar, gyda chymorth y cyfieithydd. Cafodd deinameg y grŵp ei helpu gan y ffaith bod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n adnabod ei gilydd, weithiau fel ffrindiau agos, gan ysgogi atgofion a thrafodaeth agored. Rhoddwyd yr opsiwn i bob un o'r unigolion y cyfwelwyd â nhw, a hynny ar ddechrau'r cyfweliad, y gallen nhw ar ddiwedd y cyfweliad siarad â'r cyfwelydd un-i-un ac yn breifat am unrhyw beth nad oedden nhw am ei rannu yn y grŵp. Manteisiodd un o'r benywod y cyfwelwyd â nhw ar y cyfle hwn.

## iv) Cyfweliadau ar-lein

Cynhaliwyd saith cyfweliad, pedwar unigol ac yn grŵp o dri, ar-lein. Cefnogwyd pob un o'r cyfweliadau ar-lein ond un gan gyfieithwyr. Parhaodd y rhain tua awr i ddwy awr. Gyda chytundeb y bobl ifanc, roedd gweithiwr cymdeithasol yn bresennol gyda dau berson ifanc ar-lein a chynghorydd personol gyda thri pherson ifanc ar-lein.

## vi) Cynnwys y cyfweliadau

Ffocws yr ymchwil oedd profiad y person ifanc yn y Deyrnas Unedig ac yn enwedig yng Nghymru. Er y gall eu profiadau cyn dod i'r Deyrnas Unedig effeithio ar eu profiad yn y Deyrnas Unedig, a bod yn berthnasol iddo, nid oedd yn ymarferol mynd i mewn i straeon bywyd pob un o'r 42 o bobl ifanc o fewn yr amser a chyfyngiadau eraill yr ymchwil. Er hynny, weithiau rhannwyd elfennau o gefndir person yn ddamweiniol ac mewn rhai achosion, yn y cyfweliadau unigol neu grŵp bach, siaradai'r person ifanc am y rhesymau dros adael eu cartrefi neu am eu teithiau i'r Deyrnas Unedig. Roedd yn well gan rai, yn unol â'u hawl, beidio ag ateb cwestiynau o'r fath. Roedd yn rhy boenus.

Defnyddiodd y cyfwelydd gymysgedd o gwestiynau agored, yn enwedig ar ddechrau a diwedd y cyfweliad, a chwestiynau penodol ar feysydd allweddol. Roedd y cwestiynau agored ar y dechrau yn cynnwys, 'Beth fu'r profiadau gorau a'r profiadau mwyaf heriol/ anodd ers i chi ddod i'r Deyrnas Unedig?' Roedd y cwestiynau agored ar y diwedd yn cynnwys, 'Beth yw'ch ofnau a'ch gobeithion ar gyfer y dyfodol?'

Canolbwyntiai craidd y cyfweliad ar brofiadau cadarnhaol a heriol o wasanaethau penodol fel gofal maeth, llety, gofal cymdeithasol, gofal iechyd gan gynnwys iechyd meddwl, addysg, gwaith, a'r Swyddfa Gartref.  Trafodwyd beth roedd pobl yn ei wybod am Gymru cyn iddyn nhw ddod; eu cyfeillgarwch â phobl o'r un cefndiroedd a chefndiroedd gwahanol, gan gynnwys pobl ifanc o Gymru a Lloegr; beth a phwy roedden nhw'n eu colli; sut y gellid cefnogi pobl ifanc digwmni eraill fel nhw eu hunain; a sut y gallen nhw chwarae rhan yn hyn.

Fe wnaethon nhw gymryd rhan yn y broses, yn aml â brwdfrydedd, gan eu bod am i UASC eraill beidio â phrofi anawsterau yr oedden nhw eu hunain wedi'u hwynebu. Mewn ymateb i, 'Beth yw'ch gobeithion ar gyfer y dyfodol?' dywedodd dau berson ifanc, gan roi eu huchelgais eu hunain o'r neilltu, "Rydyn am i'r adroddiad yma wella bywydau pobl ifanc eraill digwmni sy'n cyrraedd Cymru." Roedd person ifanc arall ar-lein yn gobeithio y "bydd y llywodraeth a phawb sy'n gyfrifol yn gwrando ar ddymuniadau a theimladau'r bobl ifanc."

### Adroddiad

Mae'r adroddiad cryno wedi tynnu ar ddyfyniadau helaeth o recordiadau o'r cyfweliadau gan ddarparu rhywfaint o ddadansoddiad hefyd a llunio argymhellion allweddol i wella gwasanaethau ar gyfer UASC yng ngofal awdurdodau lleol Cymru.  Mae Sabina Hussain, sy'n gyfrifol am UASC ar ran yr WSMP, wedi darparu gwybodaeth gyd-destunol bwysig. Mae hi ac Anne Hubbard, Pennaeth y WSMP, wedi rhoi cefnogaeth a chyngor drwyddi draw. .

# ATODIAD E: CYFEIRIADAU AC ADNODDAU

Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru (2022). *Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Dull Cymdeithasol o Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd*, Caerdydd, Cymru.

Hyb ACE Cymru. *Ynglŷn ag ACE a dull sy'n ystyriol o drawma,* Cymru.

Y Comisiynydd Plant (2023). *Unaccompanied Children in Need of Care*, Llundain, y DU.

Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru, *Canllaw Arferion Gorau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru sy'n cynorthwyo Plant sy'n hawlio lloches,* Abertawe, Cymru.

Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru, *Gwybodaeth i rieni maeth am faethu plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru*, Abertawe, Cymru.

Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru, *Canllawiau i blant sy'n ceisio lloches yng Nghymru,* Abertawe, Cymru.

Connolly, H. et al. (2025), *The Needs of Unaccompanied Asylum-Seeking Children and Young People Living in London*, ymchwil a gomisiynwyd gan Gynghorau Llundain a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant Llundain, Llundain, y DU.

Adran Addysg/Swyddfa Gartref (2025), *National Transfer Scheme Protocol for Unaccompanied Asylum-Seeking Children*, Fersiwn 8.0, Llundain, DU.

Ellis, S. (2022), Asylum-seekers' and refugees' right to work in Germany and the UK, *European Futures*, Chwefror 2022, Prifysgol Caeredin, wedi'i weld 24 Mehefin 2024.

Fazel. M.et al.(2012), 'Mental health of displaced refugee children resettled in high-income countries: Risk and protected factors, *The Lancet*, 379: 266 - 282.

GOV.UK (2024), *Streamlined asylum processing for children's casework (hygyrch), 20* Rhag 2024, DU.

GOV.UK (2024), *Call for Evidence: An inspection into the Home Office's use of age assessments,* Llundain, y DU.

Grosz, A., Homer, S., a Hammel, A. (2020). *Adverse Childhood Experiences (ACEs) and the Child Refugees of the 1930s in the UK: History Informing the Future*. Prifysgol Aberystwyth | Aberystwyth University.

Just Right Scotland (2024), *Unlocking Support: Age Disputed Children in Scotland,* Glasgow, y DU.

Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru a Phrifysgol De Cymru, *Adolygiad o bolisi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru.*

Nightingale, E. (2024), *Child Migrant Voices in Modern Britain: Oral Histories 1930s - Present Day*, Bloomsbury, Llundain, Dulyn ac Efrog Newydd.

Nightingale, E. a Harris, M. (2016), *Child Migrant Stories*, Llundain, y DU.

Thomas, A. (2024), *Initial Regional UASC Consultation Day*, Canolfan Gymunedol Affricanaidd, Abertawe.

Cenhedloedd Unedig (1989), *United Nations Convention on the Rights of the Child*

Llywodraeth Cymru (2014), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cymru.

Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (2025), *Analysis of NTS Referrals – 1st January 2024 – 31st December* 2024. Cymru.